



**Caring Together
Western Bay**
Health and Social Care Programme
**Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin**
Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

9 Ebrill 2018

9.30am – 12.30pm

Ystafelloedd Pwyllgor 2 a 3, Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont

Cofnodion Cyfarfodydd

Yn bresennol

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Rob Jones (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot	RJ
Yr Athro Andrew Davies (Is- gadeirydd)	BI PABM	AD
Maggi Berry	BI PABM	MB
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Y Cynghorydd Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HD
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DP
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Steven Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	SP
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Cyngor Abertawe	CL
Chris Sivers	Cyngor Abertawe	CS
Caritas Adere	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	CA
Gaynor Richards	CGG CNPT	GR
Linda Jagers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Steve Davies	Bae'r Gorllewin	SD
Louise Fraser-Cole	Bae'r Gorllewin	LFC

Yn bresennol

Huw Irranca-Davies, AC	Llywodraeth Cymru	HID
Joanne Abbott-Davies	BI PABM	JAD
Jackie Davies (Eitem 3 ar yr Agenda)	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	JD
Tanya Spriggs (Eitem 3 ar yr Agenda)	BI PABM	TS
Elaine Tanner (Eitem 3 ar yr Agenda)	Bae'r Gorllewin	ET
Peter Field (Eitem 10 ar yr Agenda)	Cyngor Abertawe	PF
Nicola Trotman (Eitem 12 ar yr Agenda)	Bae'r Gorllewin	NT
Kelly Gillings	Bae'r Gorllewin	KG

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
-----	-----------	-----------------

Tracey Myhill	BI PABM	TM
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Andrew Jarrett	CBS Castell-nedd Port Talbot	AJ
Phil Roberts	Cyngor Abertawe	PR
Y Cynghorydd Rob Stewart	Cyngor Abertawe	RS
Y Cynghorydd Mark Child	Cyngor Abertawe	MC
Dave Howes	Cyngor Abertawe	DH
Rosita Wilkins	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	RW
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio/Y Trydydd Sector	ET
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Adele Rose-Morgan	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	ARM
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru/Y Trydydd Sector	CT
Debbie Smith	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	DS

Cyf	Rhif	Gweithredu
1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
1.1	Croesawyd y Gweinidog i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a manteisiodd ar y cyfle i roi trosolwg o'r Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol.	
1.2	Diolchodd y Gweinidog i'r Cadeirydd a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at y trosolwg a'r diweddariad.	
2	Datganiadau o gysylltiadau	
2.1	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau	
3	Trosolwg o Raglen Bae'r Gorllewin - Cyflwyniad ar y Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol	
3.1	Croesawodd SC y Gweinidog a rhoddodd drosolwg byr o Raglen Bae'r Gorllewin cyn cyflwyno Jackie Davies, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Tanya Spriggs, Pennaeth Nyrsio a Gwasanaethau Cymdeithasol (Pen-y-bont a CNPT) er mwyn rhoi cyflwyniad.	
3.2	Cyflwynodd JD a TS y negeseuon a'r llwyddiannau allweddol ynghylch y Gwasanaethau Gofal Canolraddol a Gwerthusiad Cordis Bright.	
3.3	Diolchodd y Cadeirydd i JD a TS	
4	Ymateb y Gweinidog	
4.1	Diolchodd y Gweinidog i'r cydweithwyr am y cyflwyniad a gofynnodd y cwestiwn: wrth wneud cymaint o gynnydd eisoes trwy waith partneriaeth, faint yn bellach gall hyn fynd a faint yn fwy y gellir ei gyflawni gyda mwy o weithio mewn partneriaeth wrth fynd ymlaen? Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau yn holl	

waith y dyfodol.

4.2 **CGI**

- 4.2.1 Teimla Llywodraeth Cymru fod y CGI wedi bod yn llwyddiannus ar draws Cymru, gan addasu at anghenion lleol a gosod nodau realistig. Mae'n amlwg y gall Bae'r Gorllewin ddangos y canlyniadau hyn a, thrwy archwilio technoleg a diddordeb mewn trawsddysgu, gellid cyflymu'r broses. Anogwyd adborth gan y Gweinidog ar y ffordd y caiff arweinyddiaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wreiddio hyd at staff y rheng flaen ac felly sut mae'n fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- 4.2.2 Nododd y Gweinidog ei fod yn galonogol gweld y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y rhanbarth ac roedd yn gadarnhaol i weld bod y rhanbarthau'n gallu gweithio mewn modd mor effeithlon
- 4.2.3 Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i fuddsoddi yn y CGI wrth symud ymlaen
- 4.3 **Cronfeydd Cyfun ar gyfer Cartrefi Gofal**
- 4.3.1 Soniodd y Gweinidog am Gronfeydd Cyfun ar gyfer Cartrefi Gofal ac atgoffa cydweithwyr ei fod yn ofyniad statudol a'i fod o dan gylch gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 4.3.2 Nododd y Gweinidog ei fod wedi mynychu cyfarfod cadarnhaol gyda Chadeiryddion y Byrddau ar 24 Ionawr a oedd wedi ymrwymo i gyflawni popeth ar amser.
- 4.3.3 Cydnabuwyd y byddai newid posib i ffiniau CBS Pen-y-bont yn cymhlethu gwaith y rhanbarth ond disgwylir y bydd Pen-y-bont yn gallu trosglwyddo'r trefniadau i Gwm Taf, os yw'n ofynnol, wrth weithio gyda Bae'r Gorllewin ar yr un pryd.
- 4.3.4 Nododd y Gweinidog mai cyflawni diben yw nod y Cronfeydd Cyfun, gan sicrhau bod ansawdd canlyniadau'n well, ac mae'r cynnydd a wnaed wedi creu argraff arno.
- 4.3.5 Dosbarthwyd bapur Oxford Brookes ynghylch ansawdd y gwaith yn rhanbarthau eraill a sut i symud ymlaen â hyn gan Lywodraeth Cymru.
- 4.4 **Oedi wrth Drosglwyddo Gofal**
- 4.4.1 Trafododd y Gweinidog Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn fras a mynegodd ei bryderon ynghylch diffyg staff nyrsio a'r nifer o gleifion sy'n aros i dderbyn gwasanaethau gofal cartref a'r nifer o leoliadau sydd ar gael.
- 4.4.2 Lleihaodd cynllun gaeaf iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd nifer yr oediadau, sy'n dangos bod y gweithredoedd a ddefnyddiwyd wedi bod yn llwyddiannus
- 4.4.3 Gofynnodd y Gweinidog a fyddai defnyddio'r un gweithredoedd yn gweithio wrth symud ymlaen neu a fyddai angen defnyddio gweithredoedd gwahanol.

5 Trafodaeth agored

- 5.1 Holwyd am gyhoeddiad ynghylch y newid arfaethedig i'r ffiniau; nododd y Gweinidog fod y cyhoeddiad ar ddod ond argymhellodd i'r Bwrdd beidio ag aros i glywed y penderfyniad ac i barhau i drafod cronfeydd cyfun.
- 5.1.1 Gofynnodd y Gweinidog am awgrymiadau ar y ffordd orau o symud ymlaen a'r hyn sy'n ofyniad statudol ar gyfer y rhanbarth
- 5.2 Mynegwyd pryderon ynghylch y gwaith gofynnol sy'n defnyddio llawer o adnoddau yn CBS Pen-y-bont sy'n gadael ôl-troed Bwrdd Iechyd PABM; nododd y Gweinidog y byddai'n trosglwyddo'r pryderon ynghylch yr adnoddau y mae eu hangen yn ôl i Lywodraeth Cymru ac y byddai'n gweithio gyda chydweithwyr er mwyn lleihau'r pwysau.
- 5.3 Mynegwyd pryderon ynghylch aildrefnu awdurdodau lleol a thrawsnewid gofal cymdeithasol. Ceir mwy o bwysau ar allu awdurdodau lleol i ddarparu gofal cartref ond nid yw'r ffordd gyfredol o weithio'n gynaliadwy. Ceir enghreifftiau o arfer da ar draws Cymru y gellid adeiladu arnynt.
- 5.3.1 Cymhellodd y Gweinidog gydweithwyr i ymateb i'r Papur Gwyrdd a chyflwyno unrhyw sylwadau ar y ffordd ymlaen; gofynnodd y Gweinidog am adborth ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu model menter gymdeithasol gofal cartref yn y rhanbarth.
- 5.4 Achubodd y Bwrdd ar y cyfle i dawelu meddwl y Gweinidog y bydd CBS Pen-y-bont yn dal i weithio mewn partneriaeth â Bae'r Gorllewin ar y cronfeydd cyfun ond hefyd gyda Chwm Taf. Rhagwelir y bydd y gwaith a ddatblygwyd gyda Bae'r Gorllewin yn cael ei symud i Gwm Taf.
- 5.5 Mae CBS Pen-y-bont yn gobeithio agor cartref nyrsio newydd, a fyddai'n dangos enghraifft dda o'r gwelliannau mewn gofal cartref. Ceir lefel sylweddol o ofal cartref ym Mhen-y-bont ond mae angen cael mwy o amrywiaeth yn y farchnad.
- 5.6 Diolchwyd i'r Gweinidog am drefnu amser i ddod i'r cyfarfod. Estynnwyd gwahoddiad agored i'r Gweinidog ddod i unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

Caiff ymateb rhanbarthol i gwestiynau'r Gweinidog ei goladu a'i anfon at y Gweinidog

Gadawodd y Gweinidog y cyfarfod

6 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Blaenorol - 7 Rhagfyr 2017

- 6.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir

7 Materion yn codi a chofnod gweithredu

- 7.1 **Cynrychiolaeth Undeb Llafur ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** (Gweithred 2)
Ni chafwyd unrhyw enwebiadau gan Fforwm yr Undebau Llafur hyd yn hyn
- 7.2 **Hyfforddiant Sefydlu BPRh** (Gweithred 61)
Caiff ei ddatblygu'n unol ag UDRh Bae'r Gorllewin

8 Adborth o Gyfarfod Panel Rhanbarthol y Dinasyddion

- 8.1 Ymddiswyddodd Rosita Wilkins fel cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau amgen ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chaiff olynnydd ei apwyntio'n fuan.
- 8.2 Gofynnodd Panel Rhanbarthol y Dinasyddion a fyddai'n bosib peidio â chynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol ac ystyried amserau'r cyfarfodydd er mwyn galluogi'r rhai â chyfrifoldebau gofalu i ddod yn y dyfodol.
- 8.3 Rhoddwyd adborth ynghylch Adolygiad Rhaglen Bae'r Gorllewin, gan nodi na gafodd ei gynhyrchu ar y cyd.
- 8.4 Roedd y panel am nodi na chafodd y broses CGI ar gyfer dyrannu cyllideb ei cyd-gynhyrchu.
- 8.5 Hoffai'r Panel gael gwybodaeth am sut mae cyd-gynhyrchu wedi datblygu ers i'r ddeddf ddod i rym
- 8.5.1 Cydnabyddir pwysigrwydd cyd-gynhyrchu gan bawb ond bydd angen cytuno ar y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r gweithrediadau perthnasol
- 8.5.2 Cafodd cyd-gynhyrchu ei gyflwyno yn ystod cyfarfodydd Panel blaenorol ond ni chafwyd cytundeb. Trefnwyd rhaglen o gyfarfodydd ac eitemau busnes
- 8.6 Gofynnodd y Panel am ddiweddariad ynghylch cynnal cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyhoeddus yn y dyfodol
- 8.6.1 Penderfynwyd aros am ganlyniad Adolygiad Bae'r Gorllewin
- 8.6.2 Awgrymwyd y posibilrwydd o ffrydio cyfarfodydd y dyfodol trwy fideo fel ffordd arall o gynnal cyfarfodydd
- 8.6 Gofynnodd y Panel am fwy o fanylion am y sylwadau a wneir gan gynrychiolwyr mewn cofnodion yn y dyfodol
- 8.6.1 Nodwyd na ddylid nodi enw drws nesaf i sylwadau mewn cyfarfodydd

Bydd LJ yn rhoi adborth i RCP

9 Prawf o gysyniad WCCIS

- 9.1 Cyflwynodd SD i'r Bwrdd
- 9.2 Mynegwyd pryderon ynghylch gwybodaeth gamarweiniol am y system
- 9.2.1 Gellid cofnodi gwybodaeth gamarweiniol ar y system trwy wall dynol yn unig; gellir diwygio unrhyw wybodaeth a gellir defnyddio llwybrau awdit er mwyn adnabod unrhyw newidiadau.
- 9.3 Teimlwyd mai'r system hon yw'r ffordd ymlaen ar gyfer sicrhau bod cofnodion diweddar ar gael ar draws y ffiniau a rhwng

- 9.4 darparwyr iechyd
Nodwyd y buddion effeithlonrwydd o ddefnyddio WCCIS wrth i staff iechyd gofnodi'r wybodaeth yn syth yn y system ac nid oes angen mwy o amser neu staff i nodi cofnodion ymgynghoriad â llaw. Fodd bynnag, byddai buddion effeithlonrwydd yn dibynnu ar ddyrannu dyfeisiau addas megis cliniaduron a dyfeisiau llaw fel tabledi/iPads.

10 Cynnydd a Phenderfyniad ar Gronfeydd Cyfun ar gyfer Cartrefi Gofal

- 10.1 Trafodwyd yr argymhellion arfaethedig a chytunwyd yn unfrydol ar Argymhelliad 1
10.1.1 **Cytunwyd ar Argymhelliad 1**

11 Adolygiad o Raglen Bae'r Gorllewin - Dogfen gwmpasu er gwybodaeth

- 11.1 Rhoddir adborth i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod ym mis Gorffennaf
11.1.1 **Cytunwyd ar gymeradwyaeth wrth symud ymlaen** **Bydd CS/SHG yn rhoi adborth yn ystod y BPRh ar 19 Gorffennaf**

12 Diweddariad am CGI: Grantiau Trydydd Sector a Dyranid CGI

- 12.1 Rhoddodd Nicola Trotman, Cydlynnydd y Rhaglen, Bae'r Gorllewin, ddiweddariad byr i'r Bwrdd
12.1.2 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru arian refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf
12.1.2 Bydd £10m ychwanegol ar gael ar draws Cymru
12.2 **Cymeradwywyd y diweddariad**

13 Adroddiad am Raglen Bae'r Gorllewin - er gwybodaeth

- 13.1 Nodwyd bod adroddiadau er gwybodaeth yn unig

14 UFA

- 14.1 Cynllun Gweithredu Dementia
14.1.1 Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar 14 Chwefror 2018 ac yna derbyniwyd llythyr a oedd yn amlinellu'r cyllid gwerth £10m y flwyddyn (£5m eleni) ond mae angen mwy o wybodaeth am y cyllid
14.1.2 Gofynnwyd am sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn cwblhau'r gwaith hwn
14.1.3 **Cymeradwywyd y Grŵp Tasg a Gorffen** **Trafodir cynigion yn ystod y BPRh ar 19 Gorffennaf**
- 14.2 Trafodwyd rôl Cyfarwyddwr y Rhaglen yn fras a chytunwyd bod Adolygiad Bae'r Gorllewin ac ymadawiad Sara Harvey'n rhoi'r cyfle delfrydol i gytuno ar y ffordd orau ymlaen er mwyn cytuno ar ofynion y swydd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn addas at y diben.

14.2.1 Mae hysbyseb yn cael ei drafftio ar hyn o bryd ar gyfer swydd dros dro ar gyfer y rôl. Disgwylir y bydd y swydd dros dro am 6 mis nes caiff casgliadau'r adolygiad eu cyhoeddi. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr o ddiolch er mwyn cydnabod gwasanaeth Sara Harvey i'r rhanbarth

Anfonir hysbysebion a disgrifiadau swydd at RJ er mwyn eu cymeradwyo

Dyddiad y cyfarfod nesaf

19 Gorffennaf 2018
Canolfan Ddinesig
Abertawe

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am